Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Banana Moon
# Uned A
# Y Triongl
# Bracla
# Pen-y-bont ar Ogwr
# CF31 2LL

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/02/2018**

## Cyd-destun

Meithrinfa ddydd cyfrwng Saesneg yw Meithrinfa Banana Moon. Mae’n gweithredu o adeilad a ddyluniwyd yn bwrpasol ym Mracla ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae’r lleoliad ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener am 51 wythnos y flwyddyn. Mae’r lleoliad yn darparu gofal ar gyfer plant ifanc mewn ystafelloedd i fabanod, plant bach a’r sector cyn-ysgol, yn unol â’u hoedran a chyfnod eu datblygiad.

Mae cofrestriad y lleoliad yn galluogi iddo ofalu am hyd at 59 o blant rhwng 12 wythnos a 5 oed. Adeg yr arolygiad, mae’r awdurdod lleol yn ariannu ychydig iawn o blant. Nid oes unrhyw blentyn yn dod o gartref lle siaredir Cymraeg fel mamiaith, ac nid oes unrhyw blentyn yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae’r lleoliad yn nodi mai ychydig iawn o’r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae’r lleoliad yn cyflogi dau ymarferwr i ddarparu addysg ar gyfer plant a ariennir. Mae rheolwr nad yw’n addysgu yn goruchwylio’r lleoliad.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Hydref 2016. Hwn yw’r arolygiad cyntaf o’r lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd effeithiol o'u mannau cychwyn
- Mae llawer o blant yn gwrando'n astud ar storïau ac yn siarad yn briodol wrth fynegi eu hoffterau a'u casbethau
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb mewn storïau ac mewn llyfrau, a gallant alw i gof yn syml rai o'r prif ddigwyddiadau yn y storïau y maent wedi'u clywed
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau deall ystod o gysyniadau mathemategol ac yn cysylltu'r cysyniadau hyn â digwyddiadau ac eitemau bob dydd
- Mae llawer o blant yn defnyddio technoleg yn bwrpasol yn eu gweithgareddau chwarae
- Mae bron pob un o'r plant yn hapus i fynychu'r lleoliad a mynd i ymarferwyr. Maent yn ymgynefino'n gyflym ac yn cymysgu â phlant eraill yn rhwydd
- Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau dysgu a gynigir ac yn cymryd rhan o'u gwirfodd
- Yn ystod gweithgareddau chwarae annibynnol, mae llawer o blant yn hyderus i wneud awgrymiadau am weithgareddau yr hoffent ymgymryd â nhw ac mae hyn yn helpu datblygu eu medrau annibynnol yn dda

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad sy'n canolbwyntio ar ddarparu amgylchedd dysgu gofalgar sy'n gweld pethau o safbwynt rhieni
- Mae pob un o'r staff yn y lleoliad yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau
- Mae arweinwyr yn deall yn dda beth yw'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg, ac maent yn cynllunio ar gyfer eu rhoi ar waith yn effeithiol
- Mae'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r lleoliad yn canolbwyntio'n dda ar feysydd y mae angen i arweinwyr eu gwella
- Mae effaith cynlluniau blaenorol yn amlwg yn y lleoliad
- Mae gan y lleoliad ystod hynod fuddiol o bartneriaethau sy'n helpu cefnogi ei ddarpariaeth ar gyfer plant yn effeithiol iawn
- Mae arweinwyr yn gweithredu'n ddiwyd yn unol â gwybodaeth gan rieni, ac mae hyn o fudd i les y plant
- Mae'r lleoliad yn defnyddio'i ardal leol yn dda iawn i ddatblygu partneriaethau arloesol yn y gymuned sy'n cyfrannu'n hynod effeithiol at brofiadau dysgu'r plant

## Argymhellion

A1 Gwella medrau Cymraeg plant

A2 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu wedi'u harwain gan oedolion yn herio ac yn ennyn diddordeb plant ar y lefel briodol

A3 Sicrhau bod gweithdrefnau hunanarfarnu yn canolbwyntio'n fwy effeithiol ar arfarnu ansawdd camau gweithredu ymarferwyr a dysgu'r plant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd effeithiol o'u mannau cychwyn. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn dda ac yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn reidio treisiclau a rheoli ceir yn fedrus wrth chwarae yn yr awyr agored.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau llafaredd buddiol. Maent yn gwrando'n astud ar storïau ac yn siarad yn briodol wrth fynegi eu hoffterau a'u casbethau. Defnyddiant batrymau iaith a ddysgwyd yn ddigymell wrth iddynt chwarae a thrwy gydol y dydd. Er enghraifft, wedi iddynt ddod o hyd i bryfyn genwair yn yr ardd, gall plant ei ddisgrifio fel 'wiggly worm' a siarad am ei gynefin yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb mewn storïau ac mewn llyfrau. Maent yn ystyried y lluniau sy'n gysylltiedig â storïau yn ofalus ac yn nodi delweddau yn y lluniau sy'n cyfateb i rannau o'r stori yn dda. Mae llawer ohonynt yn galw i gof yn syml rai o'r prif ddigwyddiadau yn y storïau y maent wedi'u clywed. Fodd bynnag, mae rhai plant yn defnyddio cornel lyfrau'r lleoliad i edrych ar lyfrau yn annibynnol.

Mae llawer o blant yn creu marciau'n hyderus wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau. Maent yn dechrau deall y weithred o ysgrifennu fel rhywbeth sy'n gysylltiedig ag arferion bywyd go iawn. Er enghraifft, mae creu marciau ar bapur yn creu llythyr sy'n rhoi neges i Siôn Corn. Mae gan lawer ohonynt reolaeth ddatblygol wrth ddal pensiliau, sialcau a brwshis. Mae rhai plant yn dechrau dal eitemau, fel pinnau ffelt, yn fedrus ac yn tynnu llun siapiau llythrennau adnabyddadwy.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau deall ystod o gysyniadau mathemategol, fel mwy a llai. Gallant gysylltu'r cysyniadau hyn â digwyddiadau ac eitemau bob dydd. Er enghraifft, wrth chwarae â chynwysyddion o wahanol faint yn yr hambwrdd dŵr, maent yn adnabod jygiau sy'n dal mwy neu lai o ddŵr. Mae mwyafrif o blant yn dechrau cyffwrdd a chyfrif yn briodol, gan ddefnyddio geiriau rhif yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallant gysylltu hyn â datrys problemau bob dydd, fel darganfod faint o blant sydd angen byrbryd. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn gwneud hyn yn ddigon cywir. Mae llawer o blant yn dechrau datblygu dealltwriaeth fuddiol o amser fel cysyniad. Maent yn siarad yn bwrpasol am bethau sy'n digwydd cyn neu ar ôl, ac maent yn dechrau sylweddoli bod pethau'n digwydd ar ddyddiau gwahanol o'r wythnos. Mae gan rai plant ddealltwriaeth gref o ddigwyddiadau pwysig yn eu bywyd sy'n digwydd yn y dyfodol, er enghraifft gwybod eu bod yn mynd ar wyliau'r wythnos nesaf.

Mae llawer o blant yn defnyddio technoleg yn bwrpasol yn eu gweithgareddau chwarae. Defnyddiant gamerâu yn hyderus i dynnu ffotograffau o ddigwyddiadau yn ystod eu diwrnod, a defnyddiant recordyddion llais i recordio eu hunain a phlant a phobl eraill yn siarad. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r bwrdd cyffwrdd rhyngweithiol yn effeithiol. Maent yn deall bod cyffwrdd eicon yn gwneud i rywbeth ddigwydd ac yn tynnu llun siapiau gan ddefnyddio raglen gelf yn dda.

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu medrau Cymraeg. Maent yn ymuno â chaneuon Cymraeg, er enghraifft cyfarch ei gilydd trwy ddweud 'Bore da'. Mae mwyafrif ohonynt yn dechrau galw i gof rifau yn Gymraeg wrth gyfrif gydag oedolyn. Fodd bynnag, mae rhai plant yn defnyddio geiriau neu ymadroddion Cymraeg eraill yn hyderus.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn hapus i fynychu'r lleoliad a mynd i ymarferwyr. Maent yn ymgynefino'n gyflym ac yn cymysgu â phlant eraill yn rhwydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda trwy gydol y dydd ac maent yn gwrtais â phlant a phobl eraill. Er enghraifft, maent yn rhannu teganau ac yn dweud 'diolch' yn ddigymell amser byrbryd. Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau dysgu a gynigir ac yn cymryd rhan ynddynt o'u gwirfodd. Mae llawer ohonynt yn canolbwyntio ar weithgareddau'n dda ac yn dyfalbarhau â thasgau. Er enghraifft, mae llawer ohonynt yn rholio tatws stwnsh yn beli ac yn defnyddio brigau i adeiladu dyn eira yn ddiwyd.

Mae llawer o blant yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i aros yn iach. Maent yn golchi eu dwylo'n annibynnol, er enghraifft cyn bwyta. Amser byrbryd a phrydau, mae pob un o'r plant yn eistedd gyda'i gilydd yn gymdeithasol ac yn rhannu'n dda. Er enghraifft, maent yn pasio bwyd a diodydd i'w gilydd, gan gymryd maint rhesymol o bob un.

Yn ystod gweithgareddau chwarae, mae llawer o blant yn hyderus i wneud awgrymiadau am weithgareddau yr hoffent ymgymryd â nhw. Maent yn hapus i siarad ag ymarferwyr os oes gweithgareddau neu adnoddau yr hoffent eu gwneud nad ydynt ar gael. Er enghraifft, maent yn gofyn i oedolion am giwbiau rhew i beintio. Mae hyn yn helpu datblygu eu medrau annibynnol yn dda. Mae llawer o blant yn cyfrannu'n effeithiol at eu testunau dysgu, er enghraifft gofyn i gael gwybod mwy am adeiladwyr wrth astudio testun y rheiny sy'n ein helpu ni.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n dda i roi ystod effeithiol o weithgareddau dysgu difyr ac annibynnol i blant. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau a gymerwyd o syniadau'r plant eu hunain. Er enghraifft, pan nododd plant ddiddordeb yng ngwasanaeth yr heddlu, trefnodd arweinwyr ystod fuddiol o weithgareddau oedd yn cynnwys heddweision a'u ceffylau yn ymweld â'r lleoliad. Mae ymarferwyr yn darparu cydbwysedd defnyddiol o brofiadau dysgu annibynnol dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd. Mae'r rhain yn cynorthwyo plant o ran datblygu medrau rhifedd ac ysgrifennu'n dda. Er enghraifft, mae plant yn cyfrif ffigurau sydd wedi'u cuddio yn yr eira ac yn ysgrifennu ar fyrddau sialc yn yr ardd. Mae'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatblygu plant yn ddysgwyr annibynnol, ac maent yn adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oes gan y lleoliad brosesau cadarn i sicrhau bod dysgu cynlluniedig yn cwmpasu holl feysydd y cyfnod sylfaen yn systematig.

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n dda i helpu plant i ddatblygu eu medrau cyfathrebu, rhifedd a chorfforol.  Wrth gynllunio gweithgareddau dysgu, maent yn cynnwys cyfleoedd addas i wella'r medrau hyn.  Er enghraifft, wrth i blant ddatblygu medrau creadigol trwy argraffu papur lapio Nadolig, mae ymarferwyr yn eu hannog i wella'u medrau rhifedd trwy nodi a dilyn patrymau ailadroddus.  Ar draws y lleoliad, mae ymarferwyr yn sicrhau hefyd fod plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n datblygu'r medrau hyn yn annibynnol.  Er enghraifft, maent yn sicrhau bod plant yn cymryd rhan mewn ystod werth chweil o weithgareddau rhifedd difyr yn yr ardaloedd tywod a dŵr, fel dod o hyd i gychod yn y dŵr a'u cyfrif.  Mae darpariaeth y lleoliad i ddatblygu medrau technoleg plant yn effeithiol.  Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i blant ddefnyddio ystod o offer, fel recordyddion llais, camerâu a bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Mae ymarferwyr yn gweithio'n briodol i ddatblygu medrau Cymraeg plant.  Mae llawer ohonynt yn defnyddio rhai geiriau ac ymadroddion syml yn Gymraeg trwy gydol y sesiwn.  Er enghraifft, maent yn cyfarch y plant trwy ganu 'bore da'.  Maent yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd effeithiol i weld Cymraeg ysgrifenedig ar draws y lleoliad, ac maent yn defnyddio ystod sylfaenol o lyfrau stori Cymraeg yn annibynnol.  Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio'r iaith yn ddigon da.  O ganlyniad, mae datblygiad plant yn y Gymraeg yn araf.  Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd addas i blant ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru.  Er enghraifft, maent yn cymryd rhan yng nghystadlaethau'r Urdd ac yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn dda.

**Addysgu:  Digonol**

Mae gan yr holl ymarferwyr yn y lleoliad berthnasoedd gweithio agos â'r plant.  Maent yn eu deall yn dda ac mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o'u hanghenion.  Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth effeithiol o arfer y cyfnod sylfaen.  Maent yn darparu cydbwysedd addas rhwng dysgu wedi'i arwain gan oedolion a dysgu wedi'i ysgogi gan blant.  Fodd bynnag, yn ystod gweithgareddau dysgu ffocysedig, nid yw ymarferwyr yn ystyried lefel dealltwriaeth y plant yn ddigon da.  Nid ydynt bob amser yn cynllunio gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb a herio plant ar y lefel gywir.  O ganlyniad, yn y sesiynau hyn, nid yw plant yn gwneud cynnydd digon effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn rhoi symbyliadau ac adborth defnyddiol i blant yn ystod eu gweithgareddau, sy'n eu helpu i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud ac yn gwella'u dysgu.  Er enghraifft, maent yn trafod ffyrdd y gall y plant wella'u modelau.  Mae ymarferwyr yn cynnig ychydig o gyfleoedd i blant drafod ansawdd eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Trwy arsylwi, mae ymarferwyr yn monitro dysgu'r plant yn ddefnyddiol.  Maent yn casglu ystod eang o wybodaeth am gyflawniadau plant ac yn cofnodi hyn yn llyfrau'r plant yn effeithiol.  Gwnânt ddefnydd da o broffil y cyfnod sylfaen i asesu plant pan fyddant yn dechrau, ac i fesur eu cynnydd yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad.  Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt yn ddigon da i gynllunio dysgu ar gyfer y dyfodol ar y lefel gywir.  Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni'n dda am gynnydd eu plentyn trwy drafodaethau anffurfiol rheolaidd a nosweithiau gwybodaeth defnyddiol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan y lleoliad arferion defnyddiol i helpu hyrwyddo dealltwriaeth plant o fyw'n iach. Er enghraifft, mae cogydd y lleoliad yn paratoi amrywiaeth eang o fwyd ffres a maethlon ar y safle, ac mae ymarferwyr yn addysgu'r plant i olchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl chwarae anniben. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd effeithiol i blant fod yn egnïol a datblygu medrau corfforol defnyddiol. Er enghraifft, maent yn datblygu cydsymud gwerth chweil wrth ddefnyddio beiciau yn yr awyr agored ac wrth chwarae yn y pwll peli dan do. Mae pob un o'r ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth plant o fedrau cymdeithasol effeithiol, ac yn eu hannog i barchu pobl eraill. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad plant ac maent yn dangos hyn yn gyson gan ddefnyddio iaith y mae plant yn ei deall, fel 'traed yn cerdded' a 'dwylo caredig'. O ganlyniad, mae ymddygiad plant yn dda.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerth chweil ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol plant. Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod ddefnyddiol o weithgareddau dysgu i gefnogi hyn yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r gwaith thema ar archwilio sut mae pobl o bob cwr o'r byd yn dathlu'r Nadolig yn galluogi plant i ddeall ystod o wahanol ffydd a diwylliannau yn dda.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cysylltu'n agos â rhieni ac mae hyn yn sicrhau bod cymorth yn y lleoliad yn gweddu i anghenion plant yn dda. Mae arweinwyr yn cysylltu ag asiantaethau allanol, fel gwasanaethau cymorth lleferydd ac iaith, yn fuddiol. Maent yn ymateb yn ofalus i gyngor ac, o ganlyniad, yn cynorthwyo plant i wneud cynnydd gwerth chweil.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio'n ddiwyd i greu amgylchedd gofalgar a chartrefol. Mae pob un o'r staff yn gyfeillgar ac yn adnabod y plant yn dda. Mae ganddynt berthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'i gilydd a gyda'r plant. O ganlyniad, mae plant yn ymgynefino'n hapus yn y lleoliad. Mae staff yn annog ymddygiad da yn effeithiol ac mae bron pob un o'r plant yn garedig a goddefgar o blant a phobl eraill. Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff plant yr un cyfle i elwa ar y cwricwlwm a chymryd rhan ym mhob gweithgaredd. Mae ymarferwyr yn atgyfnerthu'r gwerthoedd hyn yn dda trwy gyflwyno plant i arferion o ddiwylliannau eraill, er enghraifft gwahanol draddodiadau'r Nadolig o bob cwr o'r byd.

Mae arweinwyr wedi dylunio'r tu mewn i'r adeilad i sicrhau ei fod yn lliwgar a chroesawgar. Caiff pob un o'r plant gyfle buddiol i fanteisio ar amgylchedd ysgogol sy'n cynnwys ystafell synhwyraidd ag adnoddau da. Mae ymarferwyr yn trefnu'r adnoddau helaeth yn fedrus er mwyn i blant allu eu defnyddio'n rhwydd, ac mae hyn yn helpu datblygu medrau annibynnol plant yn dda. Mae arweinwyr yn datblygu'r ardal awyr agored yn ddefnyddiol ac mae hyn yn helpu cefnogi dysgu'r plant yn briodol. O ganlyniad, gall plant ddefnyddio ystod o adnoddau, fel beiciau a cheir, sy'n eu helpu i ddatblygu medrau corfforol defnyddiol. Fodd bynnag, nid oes gan blant fynediad cyson at yr awyr agored.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinwyr yn rheoli'r cylch chwarae yn effeithiol. Mae ganddynt weledigaeth glir sy'n canolbwyntio ar ddarparu amgylchedd dysgu gofalgar sy'n gweld pethau o safbwynt rhieni. Mae'r ethos hwn yn gyrru popeth a wnânt. Er enghraifft, maent yn cysylltu â rhieni i bersonoli dietau plant a sicrhau bod y rhain yn gweddu'n dda i anghenion plant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff yn y lleoliad yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gyda'i gilydd, maent yn creu amgylchedd dysgu effeithiol ar gyfer y plant. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio ar flaenoriaethau perthnasol, fel cynllunio dysgu'r plant, yn effeithiol.

Ceir trefniadau cadarn i reoli perfformiad staff. Mae arweinwyr yn cynnal gwerthusiadau rheolaidd â phob un o'r staff. Mae hyn yn eu helpu i nodi cryfderau staff a thrafod cyfleoedd hyfforddi gydag ymarferwyr. O bryd i'w gilydd, mae arweinwyr yn defnyddio'r cyfarfodydd hyn i nodi targedau gwella unigol ar gyfer rhai ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn bob amser yn galluogi arweinwyr i fonitro ansawdd gwaith ymarferwyr na nodi blaenoriaethau gwella'n ddigon da. Mae arweinydd y lleoliad yn trefnu hyfforddiant ar gyfer staff yn briodol. O ganlyniad, mae gan bob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion ac ethos y cyfnod sylfaen.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth fanwl o'r lleoliad. Maent yn deall blaenoriaethau addysg cenedlaethol ac yn cynllunio ar gyfer eu gweithredu yn effeithiol. O ganlyniad, mae dysgu cynlluniedig yn rhoi ystyriaeth dda i'r fframweithiau llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. Mae ymarferwyr yn dechrau cynllunio ar gyfer newidiadau yn y dyfodol. Er enghraifft, maent eisoes wedi cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i baratoi ar gyfer cyflwyno'r fframwaith cymhwysedd digidol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau effeithiol mewn llawer o feysydd dysgu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae dogfen hunanarfarnu'r lleoliad yn glir a manwl. Mae'n arfarnu bron pob agwedd ar waith y lleoliad yn dda. Mae'n amlinellu'r camau diweddar y mae'r lleoliad wedi'u cymryd i wella'i arferion ac mae'n amlinellu'n glir beth fu effaith y rhain ar blant. O ran darpariaeth ac arferion, mae'n nodi'n dda beth mae angen i'r lleoliad ei wella nesaf. Fodd bynnag, er bod arweinwyr yn arfarnu gwaith y lleoliad yn dda ar y cyfan i lywio'r ddogfen hon, nid ydynt yn monitro ansawdd profiadau dysgu plant yn ddigon da. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cryf bob amser o'r cryfderau a'r diffygion yn nysgu'r plant ac mewn sesiynau wedi'u harwain gan oedolion.

Mae'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r lleoliad yn deillio'n glir o ganfyddiadau hunanarfarnu. Maent yn canolbwyntio'n dda ar feysydd y mae arweinwyr yn gwybod bod angen eu gwella, fel yr ardal ddysgu yn yr awyr agored. Mae effaith cynlluniau blaenorol yn amlwg yn y lleoliad. Er enghraifft, mae cynlluniau i roi cyfleoedd i blant

gymryd rhan mewn cynllunio eu dysgu eu hunain wedi awain at ddarpariaeth fwy effeithiol a gweithgareddau dysgu difyr i ymateb i syniadau plant. Ar gyfer llawer o flaenoriaethau a chamau gweithredu, mae arweinwyr yn nodi'n dda pa welliant y maent ei eisiau o ran ei effaith ar blant. Mae hyn yn eu galluogi i fonitro llwyddiant camau gweithredu yn effeithiol. Nid oes meini prawf llwyddiant effeithiol ar gyfer rhai blaenoriaethau gwella, a gall hyn gyfyngu ar ddealltwriaeth dysgwyr o effaith y camau gweithredu hyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan y lleoliad ystod hynod fuddiol o bartneriaethau sy'n helpu cefnogi ei ddarpariaeth ar gyfer plant yn effeithiol iawn. Ceir partneriaethau rhagorol â rhieni sy'n sicrhau bod plant yn ymgynefino'n dda ac yn parhau i ffynnu yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn cysylltu'n agos â rhieni pan fydd plant yn dechrau yn y lleoliad, a thrwy eu cyfnod yno. Defnyddiant y wybodaeth y maent yn ei chasglu i bersonoli profiadau plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn dyfeisio gweithgareddau dysgu penodol ar gyfer plant unigol, sy'n cefnogi gweithgareddau y tu allan i'r lleoliad. Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cynorthwyo rhieni'n dda iawn. Er enghraifft, mae cogydd y lleoliad yn darparu sesiynau i roi arweiniad defnyddiol i rieni ar fwyta'n iach a byrbrydau iach i blant. Mae arweinwyr yn gweithredu'n ddiwyd yn unol â gwybodaeth rhieni, ac mae hyn o fudd i les plant. Er enghraifft, mae rhieni plant y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn darparu geiriau ac ymadroddion i'r lleoliad y gallant eu defnyddio i helpu eu plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r adnoddau hyn yn fedrus. Mae cyfathrebu effeithiol iawn yn sicrhau bod ystod eang o wybodaeth ar gael i rieni yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd y plant a gwybodaeth ehangach sy'n cefnogi lles plant, er enghraifft faint y mae plant yn ei fwyta bob dydd a pha fwydydd y maent wedi'u bwyta.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i ardal yn dda iawn i ddatblygu partneriaethau arloesol yn y gymuned. Mae'r rhain yn cyfrannu'n hynod effeithiol at brofiadau dysgu plant ac yn eu helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o bobl eraill. Mae plant yn ymweld â chartref preswyl lleol bob wythnos. Maent yn ymgysylltu â'r preswylwyr yn frwdfrydig, gan gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau gyda'i gilydd, fel chwarae gemau, darllen a chanu hwiangerddi. Trwy'r bartneriaeth hynod greadigol hon, maent wedi datblygu perthnasoedd agos sy'n fuddiol iawn i'r rheiny yn y cartref, ac mae hyn yn gwella medrau cyfathrebu a lles y plant yn ogystal. Er enghraifft, mae plant wedi datblygu medrau llafaredd mwy effeithiol wrth iddynt wrando ar y preswylwyr yn amyneddgar ac maent yn dysgu siarad yn fwy hyderus ag ystod eang o oedolion. Mae'r bartneriaeth yn helpu plant i ddatblygu dealltwriaeth wirioneddol o'u cymuned a'r bobl amrywiol sy'n byw yno.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithiol gyda'r awdurdod lleol trwy ei athro ymgynghorol. Mae hyn yn rhoi arweiniad defnyddiol i arweinwyr am sut i ddatblygu darpariaeth y lleoliad, er enghraifft ar ddatblygu'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored. Mae arweinwyr yn ymateb i'r cyngor hwn yn dda. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn gwneud gwelliannau parhaus a defnyddiol i'w arferion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yn y lleoliad yn rheoli ymarferwyr ac adnoddau yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr sy'n darparu addysg ar gyfer plant ifanc yn meddu

ar gymwysterau priodol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael cyfle da i fanteisio ar ddatblygiad proffesiynol pellach, gan gynnwys hyfforddiant a gynigir gan yr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth effeithiol o'r cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn gweddu diffygion a nodwyd yn ymarferol i hyfforddiant parhaus yn ddigon da.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllid y lleoliad yn dda. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr a phlant yn gallu elwa ar ystod o adnoddau gwerth chweil sy'n gweddu'n dda i ofynion y cyfnod sylfaen. Yng ngoleuni'r safonau cryf a gyflawnir gan y rhan fwyaf o blant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |